

# FestivalUK\*2022

COFNODION - CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD (y "Cwmni" a "Festival")  
Dydd Mercher, 18 Awst 2021

Lleoliad: 1 Brindley Place a Microsoft Teams

Y Cyfarwyddwyr ac Arsyllwyr a oedd yn bresennol:	Yn Bresennol:	
<p>Y Fonesig Vikki Heywood DBE, Cadeirydd - (VH) (Annibynnol) Dr Hayaatun Sillem CBE (HS) (Annibynnol) Faraz Tasnim (FT) (Annibynnol) Liam Hannaway (LH) (yn cynrychioli Gogledd Iwerddon) Dr Bridget McConnell (BM) (yn cynrychioli yr Alban) Dr Maggie Aderin-Pocock MBE, (MAP) (Annibynnol) Priya Lakhani OBE (PL) (yn cynrychioli Lloegr) Roger Lewis (RL) (yn cynrychioli Cymru) Roger Mosey (RM) (Annibynnol)</p> <p>Emma Squire CBE (ES) (Arsyllydd – Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) Richard Walsh (RW) (Arsyllydd – Llywodraeth yr Alban) Marie Christie (MC) (Arsyllydd – Llywodraeth yr Alban)</p>	<p>Martin Green, Y Prif Swyddog Creadigol (MG) Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol (PB) Tace Jones, Cynorthwy-ydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth) (TJ) Bea Hendry, Pennaeth y Rhaglen Greadigol (BH) Ben McKnight, Cyfarwyddwr Cyfathrebu (BM) Caroline McCrory, Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni (CM) David Grady, Prif Swyddog Ariannol Grŵp y Pwyllgor Trefnu (DG) Ian Reid, Prif Weithredwr Grŵp y Pwyllgor Trefnu a Swyddog Cyfrifyddu (IR) John Darnbrook, Pennaeth Integreiddio Busnes (JD) Lucy Bailey, Uwch-gwnsler Cyfreithiol (LB) Karl Aussia, Pennaeth Interim Brand (KA) Zaylie-Dawn Wilson, Pennaeth Dysgu a Chyfranogiad (ZW) Hilary O'Shaughnessy, Pennaeth Comisiynu (HOS) Sam Hunt, Cyfarwyddwr y Rhaglen (SH)</p> <p><b>Ymddiheuriadau</b> Amali de Alwis MBE (AA) (Annibynnol) Yr Athro Mary Stuart CBE (MS) (Annibynnol) Rob Smith MBE (RS) (Annibynnol) Louise Hyland (LH) (Arsyllydd – Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) Gerwyn Evans (GE) (Arsyllydd – Llywodraeth Cymru)</p>	
RHIF	EITEM	CYFRIF OLDEB DROS WEITHR EDU
	<b>Llywodraethu</b>	
1a	<p><b><u>Croeso</u></b></p> <p>Croesawodd VH bawb i'r cyfarfod, cadarnhaodd yr aelodaeth, yr arsyllwyr a'r rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth MS, AA, RS, LH a GE.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfod yn bersonol ac ar-lein drwy Microsoft Teams.</p> <p><b><u>Datganiadau ynghylch Buddiannau</u></b></p> <p>Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau uniongyrchol mewn cysylltiad â busnes y cyfarfod hwn.</p>	
1b	<p><b><u>Cymeradwyo'r Cofnodion a Materion sy'n Codi</u></b></p> <p>Cadarnhaodd VH nad oes unrhyw faterion yn codi na chamau dros ben o'r cofnodion blaenorol.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021.</p>	

# FestivalUK\*2022

	<b>Diweddariad Gweithredol</b>	
<b>2a</b>	<p><b><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd Cyffredinol Festival</u></b></p> <p>Darparodd MG yr wybodaeth ddiweddaraf gyffredinol am ddatblygiad creadigol y prosiectau, gan gynnwys cadarnhad ynghylch nifer y lleoliadau.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch iechyd a diogelwch a nododd MG mai un o fanteision allweddol bod yn rhan o'r Pwyllgor Trefnu ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 yw bod Festival yn gallu cael gafael ar dŷm neilltuedig y Pwyllgor Trefnu sy'n edrych ar ddiogelwch mewn cysylltiad â COVID-19.</p> <p>Darparodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sefydliadol a chorfforaethol.</p> <p>Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y statws mewn cysylltiad â'r trafodaethau contract gyda phob tîm. Cynigiodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Bwrdd am statws y trafodaethau contract.</p> <p>Cadarnhaodd MG a VH na wneir unrhyw daliadau eraill i'r timau nes y bydd y cytundebau comisiynu wedi eu llofnodi.</p> <p>Ategodd PL fod y prosiectau hyn yn gyfle da i raglennu technoleg lân y pwysleisir arni ar ôl Cynhadledd y Partion 26.</p>	
	<b>Integreiddio Corfforaethol a Busnes</b>	
<b>3a</b>	<p><b><u>Pwyllgor Archwilio a Risg Eithriadol (2 Awst): Yr Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Bwrdd</u></b></p> <p>Pwysleisiwyd bod recriwtio staff a'r pryder o safbwynt y Pwyllgor Archwilio a Risg yn risg allweddol i Festival. Dywedwyd wrth y Bwrdd y bu cynnydd ar y mater hwn ers y Pwyllgor Archwilio a Risg diwethaf, a bod cyfarfodydd wythnosol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio gyda Gi Group er mwyn monitro'r gwaith recriwtio. Mae Gi Group hefyd wedi recriwtio staff ychwanegol er mwyn helpu gydag effeithlonrwydd a lefelau gwasanaeth. Cadarnhawyd ymhellach fod yr holl ddewisiadau yn cael eu harchwilio, gan gynnwys trafodaethau â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Darperir diweddariad arall yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, a chadarnhawyd y bydd Festival yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn fisol, hyd nes y cadarnheir bod y risg yn oren neu'n wyrdd.</p>	
<b>3b</b>	<p>Eglurodd MG nad oedd y timau a gomisiynwyd yn wynebu cynifer o faterion ynghylch recriwtio.</p> <p><b><u>Rheoli'r Rhaglen Weithredol</u></b></p> <p>Darparodd FT yr wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad y Pwyllgor Archwilio a Risg o systemau, offer a phrosesau rheoli y rhaglen weithredol.</p> <p>Darparwyd sleidiau manwl i'r Bwrdd fel darlenniad ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>Soniodd FT y bu trafodaethau ynghylch yr Ail Linell Amddiffyn a bod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn i Dim Festival edrych ar hyn yn fanwl.</p> <p>Cadarnhaodd FT fod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn argymhell cymeradwyo'r broses rheoli risgiau.</p>	
<b>3c</b>	<p><b><u>Cymeradwyodd y Bwrdd y dull a nodwyd ym Mhapurau'r Bwrdd.</u></b></p> <p><b><u>Adroddiad Cyllid</u></b></p>	
<b>3d</b>	<p>Darparodd DG ddiweddariad adroddiad cyllid a chadarnhaodd fod estyniadau'r Cytundeb Ymchwil a Datblygu yn cael eu rheoli, a chadarnhaodd fod yr holl ddarpariaethau ar gyfer treuliau annisgwyl a risgiau yn parhau i fod ar waith.</p> <p><b><u>Cynnydd yr Achos Busnes Llawn ac Adolygiad IPA Gateway</u></b></p> <p>Cadarnhaodd ES fod yr Achos Busnes Llawn wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chadarnhaodd mai'r cam nesaf yw pwynt cymeradwyaeth y Trysorlys ym mis Medi 2021. Bydd Pwyllgor Cyllid yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn adrodd ar ganlyniad cadarnhaol Adolygiad IPA Gateway 3 a gafodd Sgôr oren. Cadarnhaodd ES ymhellach fod rhai argymhellion wedi eu gwneud, a bod pob un ohonynt yn gyson â'r blaenoriaethau gweithredol presennol, ond bydd ES yn gweithio gyda Festival i sicrhau bod pob un ohonynt wedi eu hystyried.</p>	

# FestivalUK\*2022

	<b>Marchnata, Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliad</b>	
4a 4b	<p><b><u>Ymchwilio i'r Gynulleidfa</u></b> <b><u>Brandio: Meysydd Creadigol ac Enw</u></b></p> <p>Croesawodd VH asiantaeth SEA Design i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y canlynol: i) Ymchwil i Gynulleidfaoedd a Segmentu (Proffiliau Meddylfryd) (ii) Strategaeth greadigol a lleoli (sy'n arwain at dri Maes) (iii) Gwaith tueddiadau dylunio sy'n llawn gwybodaeth ac yn greadigol (iv) Y dull ar gyfer enwi brandiau (v) Dewisiadau ar gyfer enwi dyluniadau a brandio</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch barn y Bwrdd ar y dewisiadau brandio.</p> <p>Nododd y Bwrdd y cymhlethdodau wrth ddod o hyd i un enw ac un disgrifydd a oedd yn gweithio ar draws y bartneriaeth, ond roedd yn teimlo bod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at i ddod o hyd i ateb.</p>	
4c	<p><b><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Lansio</u></b></p> <p>Darparodd BM yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau lansio ar gyfer 21 Hydref 2021.</p> <p>Gwnaeth LH ymholiad mewn cysylltiad â chyfieithiadau.</p>	
	<b>Rhaglen Greadigol</b>	
5a	<p><b><u>Cynnwys 66 miliwn o bobl yn y Rhaglen Greadigol</u></b></p> <p>Darparodd MG yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at ymgysylltu â miliynau o bobl yn y Rhaglen Greadigol, a fydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgareddau Byw</li> <li>• Digidol a Darlledu</li> <li>• (Sgwrs Greadigol) Rhyngwladol</li> <li>• Dysgu a Chyfranogi</li> <li>• Y Cyfryngau</li> </ul> <p>Darparodd ZW sesiwn ragarweiniol i ddysgu a chyfranogi yn ei swyddogaeth o fod yn Bennaeth Dysgu a Chyfranogi.</p> <p>Myfyriodd y Bwrdd ar y cymhlethdod wrth gyflwyno rhaglen ymgysylltu y mae'n rhaid iddi fodloni gofynion gwahanol systemau addysgol. Gwneir cyflwyniad ar fanylion cynllun y dull dysgu a chyfranogi i'r Bwrdd ym mis Hydref yn dilyn ymgynghoriad.</p>	
5b	<p><b><u>Yr Hyn y Gellir ei Gyflawni gan y Comisiwn a Deilliannau: Adolygiad o'r Dangosyddion</u></b></p> <p>Arweiniodd PB sgwrs ar gomisiynu'r hyn y gellir ei gyflawni, ffyrdd o weithio a pharmedrau prosiect y comisiynau. Bydd y dasg o nodi'r pethau allweddol y gellir eu cyflawni ar gyfer pob prosiect yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref.</p>	
	<b>Blaengynllun</b>	
6a	<p><b><u>Unrhyw Fusnes Arall</u></b></p> <p>Pwysleisiodd VH y bydd cyfarfod Bwrdd eithriadol yn cael ei gynnal yn y bore ar 17 Medi 2021 ac y bydd yn para am 2 awr. Ni nodwyd unrhyw fusnes arall. Caedd VH y cyfarfod.</p>	
<p><b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 17 Medi 2021 (Eithriadol) a chynhelir Cyfarfod llawn nesaf y Bwrdd yn bersonol ar 22 Hydref 2021 ym mhencadlys Festival 2022 (6 Brindley Place).</b></p>		